# PN109 - HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CAFFAEL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwymo i amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn.

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth CBST:** | Adnoddau |
| **Maes gwaith:** | Caffael |
| **Manylion Cyswllt** | Peter Williams, Pennaeth Archwilio a Chaffael |
| **Enw Hysbysiad Preifatrwydd:** | Caffael |

**Rheolwr Data:**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**d/o Y Ganolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 6YB**

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Swyddog Diogelu Data:**
**Susan Bullock**
**01633 647467**
**E-bost: dpa@torfaen.gov.uk**

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn manylu'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol sydd ei hangen gan y tîm Caffael ar gyfer tendro nwyddau a gwasanaethau i ddarparu cyflenwadau a gwasanaethau gan y Cyngor.

## 1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Mae'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu yn cael ei rhoi i ni yn uniongyrchol gan unrhyw ddarpar gyflenwr i'r Awdurdod

## 2) Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon:

Cesglir data caffael yn electronig ac ar ffurf papur.

## 3) Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol ac ariannol sy'n gymwys a pherthnasol a ddarperir gan gontractwyr i dendro nwyddau a gwasanaethau i feysydd gwasanaeth CBST er mwyn darparu cyflenwadau a gwasanaethau.

Gall y wybodaeth hon gynnwys manylion unigolion a/neu sefydliadau y bydd yr awdurdod yn sefydlu perthnasoedd masnachu â nhw yn unol â darparu nwyddau, gwaith a gofynion gwasanaeth.

Gall y wybodaeth hon gynnwys er enghraifft:

- Gwybodaeth am Sefydliadau a Busnesau yn cynnwys enw, cyfeiriad, gwybodaeth gyswllt (ffôn ac e-bost lle bo hynny'n briodol)
- CVs staff a fwriedir i ddarparu'r nwyddau / gwasanaethau
- Ymatebion i gwestiynau fel y'u nodir yn y Gwahoddiad i Dendro (HCA), Cais am Ddyfynbrisiau (RFQs) a'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymhwyster Cyflenwyr (SQuID) - ee euogfarnau troseddol
- Copïau o dystysgrifau o wahanol natur ee sicrwydd ansawdd a manylion yswiriant

## 4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR), y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(b) Mae gennym rwymedigaeth gytundebol.
(e) Rydyn ni ei hangen i gyflawni tasg gyhoeddus.

Rydym yn ei ddefnyddio i brosesu'ch dyfynbrisiau a'ch tendrau; cynnal gwiriadau ariannol a gwiriadau busnes i asesu trosglwyddo ymrwymiadau (diogelu) neu TUPE; i greu contractau cyfreithiol; ac i dalu am y nwyddau, y gwaith a'r gwasanaethau yr ydym yn eu caffael.

## 5) Categorïau Arbennig o ddata personol:

Nid ydym yn casglu data Categorïau Arbennig.

Gallwn gasglu data ynghylch unrhyw Euogfarnau / Troseddau Troseddol fel rhan o geisiadau data'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) am ein bod yn holi am gollfarnau troseddol a gorchmynion methdaliad. Y sail ar gyfer hyn yw Rheoliadau Contract Caffael 2015 (PCR2015).

Pan fyddwn yn casglu data troseddol, bydd hyn yn cael ei brosesu o fewn y Cyngor o dan Erthygl 10 GDPR y DU.

## 6) Pwy sydd yn cael defnyddio'ch data?

Gellir rhannu eich data yn fewnol â staff os oes angen mynediad at y data er mwyn cyflawni eu rolau gan gynnwys TG, cyllid, timau archwilio mewnol a'r gwasanaethau cyfreithiol.

Bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu'n allanol â darparwyr eraill yn y sector cyhoeddus, lle byddwn yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd caffael ar y cyd.

Gellir cyhoeddi'r contractau a ddyfarnwyd ar Tenders Electronic Daily (hysbysiadau OJEU) a GwerthwchiGymru.

Ar wahân i ble y nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn rhannu'ch manylion ag unrhyw drydydd parti oni bai ein bod yn gallu gwneud hynny'n gyfreithlon i atal a chanfod troseddau a thwyll, neu i gasglu trethi.

### Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo y tu allan i'r DU?

Na

## 7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data'n ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol ar wait hi sicrhau nad yw'r data y mae'n ei broses yn cael ei golli, ei ddinistrio, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu'n ddamweiniol. Cyfyngir ar fynediad i'r data hwn yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU.

Bydd data'n cael ei storio'n ddiogel yn:

- system rheoli caffael TG ar ffurf electronig

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

## 8) Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Dim ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol a bydd yn dilyn safonau sefydliadol a safonau'r Awdurdod Lleol yn y

maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu'r data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

- 7 mlynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y cafodd y cofnodion eu creu.
- Bydd unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chontractau a wneir o dan sêl yn cael ei dinistrio, ddeuddeg mlynedd ar ôl i'r contract ddod i ben fel y nodwyd yn ein polisi cadw.

**9) <u>Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?</u>**

Na

**<u>Eich hawliau</u>**

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Hygludedd data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod canlyniadau eich bod yn methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Peter Williams, Head of Audit & Procurement, 01495 742278, Peter.williams@torfaen.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH,  Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost at Wales@ico.org.uk